# Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

**2019 dccc 3**

## RHAN 5 E+W

YMCHWILIO I GWYNION SY'N YMWNEUD Â PHERSONAU ERAILL: GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL LLINIAROL

*Adroddiadau arbennig*

### 60 Adroddiadau arbennig E+W

(1) Rhaid i adroddiad arbennig—

(a) nodi'r ffeithiau sy'n rhoi hawl i'r Ombwdsmon baratoi'r adroddiad arbennig (hynny yw, y ffeithiau sy'n gwneud achos 1, 2 neu 3 o adran 59 yn gymwys), a

(b) gwneud y cyfryw argymhellion sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon o ran y camau gweithredu y dylid, ym marn yr Ombwdsmon, eu cymryd—

(i) i unioni neu atal yr anghyfiawnder neu'r caledi i'r person, a

(ii) i atal anghyfiawnder neu galedi tebyg rhag cael ei achosi i unrhyw berson yn y dyfodol.

(2) Os yw'r adroddiad arbennig yn cael ei baratoi am fod achos 1 o adran 59 yn gymwys, rhaid i'r Ombwdsmon anfon copi o'r adroddiad at bob person yr anfonwyd copi o'r adroddiad adran 55 ato o dan adran 55(2)(b).

(3) Os yw'r adroddiad arbennig yn cael ei baratoi am fod achos 2 neu 3 o adran 59 yn gymwys, rhaid i'r Ombwdsmon anfon copi o'r adroddiad—

(a) os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â chwyn, at y person a wnaeth y gŵyn;

(b) at y darparwr y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef.

(4) Caiff yr Ombwdsmon anfon copi o adroddiad arbennig at unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon.

(5) Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi adroddiad arbennig.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Adran 60 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 06 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(6) Caiff yr Ombwdsmon roi copi o adroddiad arbennig a gyhoeddwyd, neu ran o adroddiad o'r fath, i unrhyw berson sy'n gofyn amdano neu amdani.

(7) Caiff yr Ombwdsmon godi ffi resymol am roi copi o adroddiad arbennig, neu ran o adroddiad o'r fath, o dan is-adran (6).

(8) Ni chaniateir cynnwys yr wybodaeth ganlynol mewn fersiwn o adroddiad arbennig a anfonir at berson o dan is-adran (2), (3) neu (4) neu a gyhoeddir o dan is-adran (5)—

- (a) enw unrhyw berson heblaw'r darparwr y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef;
- (b) gwybodaeth sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o wneud y cyfryw berson yn hysbys ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, ei hepgor heb amharu ar effeithiolrwydd yr adroddiad arbennig.

(9) Nid yw is-adran (8) yn gymwys os yw'r Ombwdsmon, ar ôl ystyried buddiannau'r person a dramgwyddwyd (os oes un) ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn yr Ombwdsmon, o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys yr wybodaeth honno yn y fersiwn honno o'r adroddiad arbennig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 60 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 77(1)**

**I2** A. 60 mewn grym ar 23.7.2019 gan O.S. 2019/1096, **rhl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Adran 60 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 06 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

– Act modified by 2023 asc 3 Sch. 2 para. 6
– Act modified by 2023 asc 3 Sch. 12 para. 7(2)

Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(a) (Welsh language text)
– s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(b) (English language text)